WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Theatrau Llawdriniaethau – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1450A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Andrew Doughton oedd yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

**Mae tystiolaeth dda bod y broses o reoli a defnyddio'r theatrau llawdriniaethau yn gwella, ond mae angen adeiladu ar y gwelliant hwn drwy ganolbwyntio'n fwy ar gynhyrchiant llawfeddygol a thrwy fynd i'r afael â heriau o ran yr ystad a'r gweithlu mewn rhai safleoedd.**


Adroddiad cryno

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddefnydd o theatrau llawdriniaethau ac agweddau ehangach ar effeithlonrwydd, er bod pwysau gofal heb ei drefnu yn parhau i fod yn her 5

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd achub ar y cyfle i adeiladu ar ei welliannau hyd yma, drwy ysgogi mwy o gynhyrchiant llawfeddygol 10

Er bod rhai cyfleoedd i wella ymhellach, mae trefniadau ansawdd a diogelwch y theatrau yn helpu i leihau'r risgiau i gleifion 14

Mae trefniadau rheoli da sy'n cefnogi gwelliant parhaus, ond mae angen mynd i'r afael â heriau i'r ystad a'r gweithlu mewn rhai safleoedd 16

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb y rheolwyr 20

Atodiad 2 – Cynnydd yn erbyn argymhellion 2014 26

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Mae theatrau llawdriniaethau yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Mae rheoli theatrau yn effeithlon yn arwain at gost-effeithiolrwydd, yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei dargedau amseroedd aros ac yn cyfrannu at ofal o ansawdd uchel i gleifion.

2 Yn 2014, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o theatrau llawdriniaethau. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwnnw ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd theatrau, gan gynnwys agweddau ar y llwybr llawfeddygol ehangach, megis:

- sut roedd cleifion a oedd yn aros am lawdriniaeth yn cael eu rhestru;
- cysondeb trefniadau asesu cyn llawdriniaeth;
- derbyniadau llawfeddygol a'r defnydd o theatrau;
- y prosesau ansawdd, gan gynnwys rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd; a
- gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau.

3 Fel rhan o gynllun archwilio 2018 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi cymryd camau dilynol yn sgil adolygiad 2014 er mwyn penderfynu i ba raddau yr aethpwyd i'r afael ag argymhellion blaenorol ac ystyried agweddau ehangach ar effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau theatrau llawdriniaethau'r Bwrdd Iechyd. Roedd y gwaith archwilio'n cynnwys arolwg o staff theatrau, adolygu dogfennau, cyfweliadau, esboniad o lwybr y theatrau a dadansoddi data. Roedd llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r arolwg o staff theatrau yr un peth ag yn 2014. Roedd hyn yn helpu i lywio ein barn ar y cynnydd.

4 Cynhaliwyd yr archwiliad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019 a gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cleifion Llawfeddygol ym mis Mai 2019. Mae'r sleidiau a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad hwnnw wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn.

5 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau ein harchwiliad dilynol ac yn gwneud rhagor o argymhellion ar gyfer gwella. Dangosir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion newydd yn Atodiad 1, ac mae Atodiad 2 yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaethom yn 2014.

## Casgliad cyffredinol

Ein casgliad cyffredinol yw: ' **Mae tystiolaeth dda bod y broses o reoli a defnyddio'r theatrau llawdriniaethau yn gwella, ond mae angen adeiladu ar y gwelliant hwn drwy ganolbwyntio'n fwy ar gynhyrchiant llawfeddygol a thrwy fynd i'r afael â heriau o ran yr ystad a'r gweithlu mewn rhai safleoedd.'**

6 Nodir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn yr adrannau canlynol sydd wedi cael eu grwpio yn bedair prif thema:

- effeithlonrwydd a’r defnydd o’r theatrau lawdriniaethau[1]
- cynhyrchiant llawfeddygol[2]
- trefniadau ansawdd theatrau llawdriniaethau, a
- y galluogwyr sy’n cefnogi gwelliant.

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddefnydd o theatrau llawdriniaethau ac agweddau ehangach ar effeithlonrwydd, er bod pwysau gofal heb ei drefnu yn parhau i fod yn her

### Rhestru claf ar gyfer llawdriniaeth

Er bod dulliau o restru cleifion ar gyfer llawdriniaeth yn amrywio o hyd, mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio rhestrau llawfeddygol wedi gwella.

7 Mae rhestru’n effeithiol yn helpu i sicrhau y darperir digon o amser yn y theatr ar gyfer triniaethau fel y gellir gwneud defnydd da o'r sesiynau llawdriniaethau yn y theatrau. Mae ein canfyddiadau’n nodi bod gan y Bwrdd Iechyd, fel yn 2014, ddulliau gwahanol o restru cleifion ar gyfer llawdriniaeth yn y safleoedd gwahanol yng Ngogledd Cymru. Mae Ysbyty Maelor Wrecsam yn defnyddio canolfan ganolog ar gyfer rhestru cleifion. Yn y ddau safle arall, mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ysgrifenyddesau meddygol sy’n rhestru cleifion ar gyfer llawdriniaeth. Nid yw ein trafodaethau ag aelodau o'r staff a’n gwaith dadansoddi data yn nodi dadl sylweddol o blaid mabwysiadu'r naill fodel na'r llall. Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith i awgrymu bod y naill fodel na’r llall yn atal gwelliant cyffredinol. Roedd ein harolwg staff theatrau yn adlewyrchu barn gyffredinol bod y broses restru wedi gwella. Yn 2014, roedd 47% o’r staff yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod "y mwyafrif o restrau’r theatrau yn cael eu cynllunio’n effeithiol”. Cynyddodd hyn i 73% yn 2019.  Yn ogystal, tynnodd ein gwaith sylw at brosesau gwell i fynd i’r afael â phroblemau gweithredol, megis achosion o ganslo gan gleifion neu’r ysbytai, yn enwedig yn ystod y cyfnod 8 diwrnod cyn sesiynau llawfeddygol.

[1] Mae’r defnydd o theatrau yn fesur cydnabyddedig sy’n disgrifio achosion o ddechrau’n hwyr, bylchau rhwng triniaethau a pha un a orffennodd y sesiwn yn y theatr ar amser.

[2] Ar gyfer yr adolygiad hwn, rydym yn disgrifio cynhyrchiant llawfeddygol fel y nifer o driniaethau a gyflawnwyd o fewn sesiwn theatr gydag adnodd penodedig.

## Clinig asesu cyn llawdriniaeth

**Mae dogfennau'r asesiadau cyn llawdriniaeth wedi'u safoni ac mae barn y staff yn gadarnhaol ar y gwasanaeth ond mae cyfle o hyd i alinio'r modelau gwasanaeth ym mhob un o'r safleoedd.**

8 Defnyddir clinigau asesu cyn llawdriniaeth i asesu claf cyn llawdriniaeth, gyda'r nod o nodi unrhyw gyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli, sgrinio ar gyfer heintiau (megis MRSA), penderfynu ar y risg glinigol a sicrhau bod claf yn cael llawdriniaeth mewn cyfleuster addas.

9 Yn 2014, gwnaethom 2 argymhelliad i wella'r broses asesu cyn llawdriniaeth. Argymhellodd adroddiad 2014 y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- safoni dogfennaeth clinigau asesu cyn llawdriniaeth ar draws y safleoedd; a
- safoni ei brosesau asesu cyn llawdriniaeth.

10 Gwnaeth ein gwaith yn 2019 ganfod y canlynol:

- defnyddir ffurflenni asesu safonol bellach ym mhob un o'r safleoedd ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad;
- mae barn well gan y staff ar y prosesau cyn asesu a sgrinio cleifion rhwng 2014 a 2019;
- mae anghysondeb rhwng y modelau asesu cyn llawdriniaeth o hyd. Mae angen mynd i'r afael â'r maes hwn o hyd.

11 Yn 2018, cwblhaodd tîm gwella'r Bwrdd Iechyd adolygiad er mwyn deall graddau'r amrywiad o ran trefniadau asesu cyn llawdriniaeth. Er enghraifft, gwelsant amrywiad o ran cymysgedd sgiliau, cyfrifoldebau a phrosesau gweinyddol timau. Darparodd eu gwaith ddadansoddiad cadarn ond nid arweiniodd at unrhyw benderfyniad i gysoni'r dulliau. Rydym yn parhau o'r farn bod angen dulliau cyson o asesu cyn llawdriniaeth er mwyn sicrhau y gall timau llawfeddygol ddibynnu ar yr asesiad, ni waeth ar ba safle y gwelwyd y claf. Felly, mae ein hargymhelliad o 2014 yn parhau i fod yn agored (Atodiad 2). Er nad oes gennym farn ar fodel a ffefrir, byddai o fudd gwneud y canlynol:

- mabwysiadu arferion gorau pan fydd ar gael o'r modelau presennol;
- sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i adeiladu ar ei ystyriaeth o fodelau arfer da mewn cyrff iechyd eraill; a
- sicrhau bod y model yn cefnogi llwybrau llawfeddygol cynhyrchiol ac effeithiol a bod y model yn fforddiadwy.

## Llawdriniaeth ar y diwrnod derbyn

Mae nifer y bobl sy'n cael llawdriniaeth ar y diwrnod derbyn wedi gwella ac ymdriniwyd â'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad ar Ysbyty Glan Clwyd yn 2014. Fodd bynnag, gall y cynllun a'r defnydd o uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth (cleifion yn cyrraedd) amharu ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

12 Mae unedau derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn lleihau'r angen am wely ysbyty cyn llawdriniaeth a dylent helpu i sicrhau bod cleifion yn llifo'n dda rhwng yr uned a theatrau llawdriniaethau.

13 Yn 2014, gwelsom nad oedd uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth Ysbyty Glan Clwyd yn cynnig profiad da nac urddas cleifion. Roedd y materion hynny'n deillio'n bennaf o waith sylweddol i adnewyddu'r safle. Mae ein canfyddiadau yn 2019 yn nodi bod yr amgylchedd i gleifion, y broses o'u rheoli a llif cleifion wedi gwella'n sylweddol ers i'r uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth newydd agor yn Ysbyty Glan Clwyd, sy'n helpu i wella effeithlonrwydd.

14 Mewn gwrthgyferbyniad, fodd bynnag, nododd ein gwaith yn 2019 nifer o anawsterau gweithredol yn uned Derbyn Cleifion ar Ddiwrnod y Llawdriniaeth Maelor Wrecsam. Mae gofal heb ei drefnu ac allgleifion meddygol (cleifion meddygol mewn gwelyau llawfeddygol) yn effeithio ar yr uned ac mae hyn yn arwain at achosion o ganslo llawdriniaeth ddewisol. Nododd ein hymweliad â'r safle nad yw cynllun yr uned, sef amgylchedd ward traddodiadol, yn helpu llif cleifion (h.y. gall uned sy'n seiliedig ar welyau yn hytrach na model lolfa dderbyn amharu ar lif cleifion yn ogystal ag arwain at aneffeithlonrwydd o ganlyniad i'w defnyddio i liniaru pwysau gofal heb ei drefnu). Dylai'r gwaith i adnewyddu Uned Maelor Wrecsam yn y tymor byr helpu i liniaru'r broblem hon, ond bydd angen ateb tymor hwy fel rhan o gynllun ystad cyffredinol ar gyfer y safle (Argymhellion 3 a 4, 2019).

15 Caiff y canfyddiadau uchod eu hadlewyrchu yn yr ymatebion i'r arolwg staff theatrau. Yn 2014, gwnaeth 49% o'r staff gytuno neu gytuno'n gryf fod "Derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn gweithio'n dda". Mae hyn wedi cynyddu i 73% yn 2019. O'r tri safle hyn, staff o Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd a ymatebodd fwyaf cadarnhaol i'r datganiad.

## Y defnydd o theatrau llawdriniaethau

**Mae ffocws clir a pharhaus ar y defnydd o theatrau llawdriniaethau[3], sy'n gwella o flwyddyn i flwyddyn.**

16 Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi ystyried gwybodaeth amrywiol am berfformiad sy'n ymwneud â'r defnydd o theatrau llawdriniaethau. Mae ein cymhariaeth rhwng y defnydd yn 2017/18 a 2018/19 yn dangos y canlynol:

- o fan cychwyn isel, mae cyfran y sesiynau theatr sy'n dechrau'n hwyr wedi gwella (lleihau) yn nodedig yn ystod y rhan fwyaf o fisoedd.
- mae cyfran y sesiynau sy'n gorffen yn gynnar wedi gwella (lleihau) ac mae'n agos at y targed blynyddol; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i osod 'targedau ymestyn' sy'n cael eu teilwra i bob safle lleol, gan adlewyrchu gwelliant mewn perfformiad sy'n ddisgwyliedig ond yn realistig.


17 Dengys Arddangosyn 1 y defnydd cyffredinol hyd at fis Chwefror 2019 o gymharu â'r targed a pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Y canlynol yw'r prif bwyntiau i'w nodi:

- rhagorodd y perfformiad ar yr un mis yn y flwyddyn flaenorol;
- nid yw pwysau gaeafol (anterth y galw am ofal heb ei drefnu yn ystod mis Rhagfyr, mis Ionawr a mis Chwefror) wedi effeithio ar y defnydd o theatrau i'r un graddau yn 2018/19 ag y gwnaethant yn 2017/18.

[3] Mae'r defnydd yn seiliedig ar yr amser llawfeddygol gwirioneddol a ddefnyddir yn ystod 'sesiwn theatr'. Mae'n ystyried achosion o ddechrau'n hwyr, bylchau rhwng triniaethau ac i ba raddau y mae sesiwn theatr yn gorffen ar amser.

Arddangosyn 1 – Y defnydd o theatrau llawdriniaethau ar gyfer sesiynau dewisol

Canran y defnydd o theatrau ar gyfer sesiynau Dewisol* ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd




Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

* Noder: Mae sesiynau Dewisol yn ymwneud â llawdriniaeth wedi'i chynllunio a chleifion sydd fel arfer wedi aros am lawdriniaeth ar restr aros.

## Mae’n rhaid i’r Bwrdd Iechyd achub ar y cyfle i adeiladu ar ei welliannau hyd yma, drwy ysgogi mwy o gynhyrchiant llawfeddygol

18 Mae adran flaenorol yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at sefyllfa sy’n gwella o ran y defnydd o theatrau llawdriniaethau. Mae ein gwaith yn 2019 hefyd wedi canfod y gall y Bwrdd Iechyd adeiladu ar ei gynnydd drwy wella cynhyrchiant llawfeddygol[4].

### Byddai gwella cynhyrchiant llawfeddygol yn helpu i leihau'r rhestrau aros mawr ac yn gwella ansawdd gwasanaethau i gleifion.

19 Mae ein dadansoddiad o atgyfeiriadau i restrau aros am driniaeth yn nodi pa mor hir y mae rhai pobl yn gorfod aros. Ym mis Mawrth 2019, roedd 5,898 o gleifion yn aros am dros 36 o wythnosau ac o’r rhain roedd 2,310 o gleifion yn aros am fwy na blwyddyn[5]. Gall cleifion sy’n aros am amser hir ddioddef poen, gorbryder, a cholli gwaith neu incwm ac mae risg hefyd y gall eu cyflwr waethygu gan arwain at niwed parhaol. Mae gwelliannau i gynhyrchiant llawfeddygol yn creu cyfle i wella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth i boblogaeth Gogledd Cymru.

### Cafwyd gwariant sylweddol ar fentrau rhestrau aros yn ystod 2018/19.

20 Yn 2018/19, cafwyd tua 28,500 o driniaethau llawfeddygol a ariannwyd o weithgarwch craidd a 4,200 o driniaethau ‘mentrau rhestrau aros[6]’. Felly, mae gweithgarwch mentrau rhestrau aros yn gyfrifol am 15% o’r gweithgarwch llawfeddygol cyfan ar hyn o bryd.

21 Yn 2018/19, gwariodd y Bwrdd Iechyd £8.3 miliwn ar fentrau rhestrau aros a £4.1 miliwn yn ychwanegol ar drosglwyddo gweithgarwch llawfeddygol allan i ddarparwyr allanol er mwyn helpu i leihau achosion o aros yn hir am driniaeth. Mae’r Bwrdd Iechyd eisoes yn gwario mwy na’i gyllideb ddirprwyedig ac mae wedi dibynnu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid anghylchol ychwanegol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gleifion yn aros yn hir. Mae hyn ond wedi bod yn rhannol effeithiol ac nid yw’n cynnig ateb cynaliadwy. Byddai gwella cynhyrchiant yn cyfyngu ar y graddau y mae’r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar weithgarwch ychwanegol costus ac yn helpu i ddarparu gwerth gwell am arian cyhoeddus.

[4] Yn yr adolygiad hwn, rydym yn disgrifio cynhyrchiant llawfeddygol fel nifer y triniaethau a gyflawnwyd o fewn cyfnod penodol gydag adnodd penodedig.

[5] Bydd llawer o’r achosion, ond nid pob achos, o aros dros 36 wythnos yn ymwneud â chleifion sy’n aros ar y llwybr llawfeddygol.

[6] Defnyddir mentrau rhestrau aros i ymdrin â rhestrau aros mawr. Maent yn glinigau neu’n sesiynau llawfeddygol ychwanegol sy’n digwydd yn aml y tu allan i oriau craidd am gost ychwanegol i’r Bwrdd Iechyd.

Mae cynhyrchiant yn amrywio ac mae potensial i'w wella.

22 Fel rhan o'n gwaith, gofynnom am amseroedd anaesthetig a llawfeddygol ar gyfer y pedwar math canlynol o driniaethau cyffredin iawn:

- gosod lensys newydd prosthetig (cataractau);
- tynnu'r tonsiliau;
- gwaith sylfaenol i atgyweirio torgesti arffedol drwy osod deunydd prosthetig; a
- gwaith sylfaenol i osod cymalau gliniau newydd prosthetig cyfan drwy ddefnyddio sment.

23 Dengys Arddangosyn 2 yr amrywiad yng nghyfanswm yr amser a gymerwyd ar gyfer triniaethau gosod cymalau gliniau newydd cyfan yn ystod 2018/19 (wedi'i rannu'n amser ar gyfer triniaethau anaesthetig a llawdriniaethau). Rydym hefyd wedi cynnwys y canolrif. Gwelwyd patrwm tebyg o amrywiad ym mhob un o'r triniaethau dan sylw.


24 O'r pedwar math o driniaeth a ddadansoddwyd, petai modd lleihau'r amser ar gyfer triniaethau uwchlaw'r canolrif i'r canolrif, byddai cynhyrchiant yn cynyddu rhwng 11 ac 16%. Byddai hyn yn cyfateb i'r canlynol:

- 850 o driniaethau ychwanegol i osod lensys newydd prosthetig (cataractau) (cynnydd o 16% o ran cynhyrchiant);
- 71 o driniaethau ychwanegol i dynnu tonsiliau (cynnydd o 14% o ran cynhyrchiant);
- 121 o driniaethau sylfaenol ychwanegol i atgyweirio torgesti arffedol drwy osod deunydd prosthetig (cynnydd o 15% o ran cynhyrchiant);
- 86 o driniaethau sylfaenol ychwanegol i osod cymalau gliniau newydd prosthetig cyfan drwy ddefnyddio sment.

25 Yn ogystal, petai gwelliannau o ran cynhyrchiant ar bob un o'r triniaethau hynny ar y canolrif neu islaw'r canolrif, gallai'r cynnydd o ran cynhyrchiant fod yn fwy o bosibl.

Arddangosyn 2 – Hyd cyfartalog triniaethau anaesthetig a llawdriniaethau

Amrywiad o ran cyfanswm cynhyrchiant amser llawdriniaethau ac amser anaesthetig – W401 **Triniaethau sylfaenol i osod cymalau gliniau newydd prosthetig cyfan drwy ddefnyddio sment**, 2018/19




Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

26 Mae ein hadolygiad wedi nodi amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at gynhyrchiant llawfeddygol newidiol. Mae'r rhain yn cael eu rhestru yn Arddangosyn 3 ac yn dangos rhai cyfleoedd penodol y dylai'r Bwrdd Iechyd eu hystyried ymhellach mewn ymateb i Argymhelliad 1, 2019.

Arddangosyn 3 – Ffactorau sy'n effeithio ar gynhyrchiant

Agweddau a nodwyd sy'n effeithio ar gynhyrchiant llawfeddygol yn y Bwrdd Iechyd

- **Arferion llawfeddygol ac anaesthetig gwahanol**. Disgrifiodd rhai pobl y cyfwelwyd â nhw arferion llawfeddygol effeithiol newydd a rhai sy'n datblygu a'r potensial i symud tuag at lai o driniaethau anaesthetig cyffredinol a mwy o driniaethau anaesthetig lleol neu anaesthetig i asgwrn y cefn er mwyn gwella profiad ac adferiad cleifion.

- **Hyd sesiwn theatr**. A yw'r sesiwn yn un hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan (ar hyn o bryd mae dwy ran o dair yn sesiynau hanner diwrnod). Nododd y staff fod sesiynau hanner diwrnod yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer rhestrau ac yn arwain at gynhyrchiant gwell.

- **Gallu**. Er ei fod yn bwnc gwahanol, disgrifiodd rhai pobl y cyfwelwyd â nhw effeithiau amrywiol gallu staff ar gynhyrchiant.

- **Cymysgedd achosion** – aciwtedd cleifion gan arwain at lawdriniaethau mwy cymhleth i rai cleifion nag eraill a mwy o amser llawfeddygol.

- **Cysondeb timau theatrau**. Nododd y staff fod timau sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn mireinio ac yn gwella prosesau hefyd yn creu'r potensial i wella cynhyrchiant.

- **Cleifion yn canslo triniaethau** (am unrhyw reswm). Yn 2018/19, roedd hyn yn amrywio yn aml rhwng 10% ac 20% rhwng y safleoedd yn ystod y rhan fwyaf o fisoedd. Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng cynhyrchiant a chyfraddau canslo.

- **Cyfran y cleifion allanol neu'r cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am amser byr iawn**. Mae lleihau cyfnodau aros yn yr ysbyty yn ogystal â chyflwyno triniaethau i gleifion allanol ar gyfer llawdriniaethau rheolaidd cymhleth (megis gosod clun neu ben-glin cyfan newydd) yn dod yn bosibl. Mae symud tuag at fwy o gleifion dydd neu gleifion sy'n aros yn yr ysbyty am amser byr iawn yn debygol o wella'r llif a gall gyfyngu ar effaith gofal heb ei drefnu ar lawdriniaethau dewisol.

- **Sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ehangach ym mhob rhan o'r llwybr llawfeddygol llawn**. Gwasanaethau cofleidiol sy'n cefnogi adferiad gwell ar ôl llawdriniaeth, symud cleifion yn gynnar neu gymorth i'w galluogi i gael eu rhyddhau'n ddiogel ac yn effeithiol cyn gynted â phosibl. Amlygwyd y rhain i gyd fel galluogwyr a fyddai'n cefnogi cynhyrchiant gwell.

## Er bod rhai cyfleoedd i wella ymhellach, mae trefniadau ansawdd a diogelwch y theatrau yn helpu i leihau'r risgiau i gleifion

27 Mae trefniadau o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer llawdriniaeth ddiogel ac i gefnogi canlyniad a phrofiad da i gleifion. Mae barn y staff yn fesur pwysig o effeithiolrwydd ansawdd. Felly, mae'n gadarnhaol bod cyfran y staff sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddent yn teimlo'n ddiogel yn cael triniaeth yma fel claf wedi cynyddu o 76% yn 2014 i 87% yn 2019. Mae'r isadrannau canlynol yn rhoi rhagor o ddealltwriaeth o'r trefniadau ansawdd.

### Rhestrau gwirio llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd

Mae'r defnydd o restrau gwirio Sefydliad Iechyd y Byd wedi gwella a'u gwreiddio, er mwyn helpu i sicrhau y caiff camau ansawdd eu dilyn cyn llawdriniaeth.

28 Cydnabyddir bod y defnydd o restrau gwirio Sefydliad Iechyd y Byd yn arfer da. Nododd ein trafodaethau â'r staff, adborth yr arolwg staff, arsylwadau ac adolygiad o'r wybodaeth am berfformiad i gyd y caiff rhestrau gwirio Sefydliad Iechyd y Byd eu defnyddio'n rheolaidd cyn llawdriniaeth gyda chyfraddau cydymffurfio sy'n cyrraedd rhwng 94% a 98% rhwng y safleoedd. Er bod peth amrywiad o hyd rhwng y safleoedd o ran sut y defnyddir rhestrau gwirio Sefydliad Iechyd y Byd, ni wnaethom nodi unrhyw bryderon am y dull gweithredu ac mae ein canfyddiadau yn nodi bod dull gweithredu wedi'i wreiddio'n dda rhwng y safleoedd. Felly, mae ein hargymhelliad o 2014 bellach wedi'i gau.

### Y defnydd o gyfarfodydd briffio cyn sesiynau ac ôl-friffiadau ar ôl sesiynau

Mae staff theatrau yn nodi y cynhelir cyfarfodydd briffio cyn rhestru ym mhob un o'r safleoedd, ond ni chynhelir ôl-friffiadau ar ôl llawdriniaeth yn dilyn rhestr yn aml.

29 Dangosodd yr arolwg o staff theatrau fod gwelliant bach o ran y defnydd o gyfarfodydd briffio gyda 60 allan o 75 o staff yn cytuno y caiff personél theatr eu briffio cyn llawdriniaeth bob tro. Fodd bynnag, gwnaeth 9 allan o 75 o staff anghytuno neu anghytuno'n gryf fod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn dechrau'r rhestr. Mae cyfle i ymchwilio i'r rhesymau sylfaenol ac atgyfnerthu dulliau cyfathrebu. Mae angen o hyd i dargedu ôl-friffiadau, yn enwedig pan na fydd rhestr neu driniaeth wedi llwyddo yn ôl y bwriad neu pan all staff newydd mewn tîm theatr rannu arfer da neu arfer gwahanol. Mae'r argymhelliad a wnaethom yn 2014 yn parhau ar agor (Atodiad 2).

## Dysgu o ddigwyddiadau a phrofiad y claf

### Mae trefniadau ar waith i uwchgyfeirio digwyddiadau a rhannu'r gwersi a ddysgir â phob safle.

30 Canfu ein gwaith y canlynol:

- mae staff yn nodi y defnyddir system rheoli digwyddiadau Datix yn rheolaidd.
- mae llwybrau ffurfiol i uwchgyfeirio materion drwy grwpiau ansawdd a diogelwch.
- nododd pob un o'r uwch-reolwyr gweithredol eu bod yn cael gwybod yn gyflym am ddigwyddiadau ar eu safle. Mae'r rheolwyr hefyd yn nodi eu bod yn adolygu adroddiadau digwyddiadau Datix bob dydd.
- ceir gwelliant bach o ran barn staff ar effeithiolrwydd yr ymatebion i ddigwyddiadau, ond gellid gwneud mwy i gyfathrebu'n ôl â'r staff pan gymerir cam gweithredu.
- rhennir gwersi a ddysgir â'r safleoedd drwy'r Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cleifion Llawfeddygol, ac mewn cyfarfodydd o'r grŵp theatrau 'Cymru gyfan'.

### Gellid gwneud mwy i gasglu, dadansoddi a rhannu adborth ar brofiad y claf.

31 Yn ôl ein gwaith, dim ond mewn elfennau o'r llwybr llawfeddygol y caiff profiad y claf ei nodi, megis clinigau asesu cyn llawdriniaeth. Mewn meysydd eraill, gan gynnwys cleifion yn cyrraedd, theatrau ac adfer, mae'r trefniadau yn llai ffurfiol. Felly, mae ein hargymhelliad o 2014 yn parhau i fod yn agored (Atodiad 2).

## Hyfforddiant ar ansawdd a diogelwch

### Mae trefniadau da ar gyfer hyfforddiant ar ansawdd, er bod potensial i gysoni dulliau gweithredu rhwng y safleoedd

32 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio 'diwrnodau archwilio' yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a hyfforddi staff. Mae rhaglen flynyddol glir o hyfforddiant gwella ansawdd ym mhob un o'r prif safleoedd. Gwelsom fod y rhain wedi'u cynllunio'n dda a'u hyrwyddo'n lleol, er bod rhywfaint o botensial i gysoni'r rhaglenni datblygu ym mhob un o'r safleoedd. Gwelsom hefyd fod y rheolwyr yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd a bod amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i staff am gyfleoedd i gael hyfforddiant ansawdd penodol, metrigau ansawdd a bod cyfle hefyd i gyflwyno sylwadau ac i'r staff roi adborth ym mhob un o'r prif safleoedd.

## Mae trefniadau rheoli da sy’n cefnogi gwelliant parhaus, ond mae angen mynd i’r afael â heriau i'r ystad a'r gweithlu mewn rhai safleoedd

### Trefniadau rheoli

#### Mae trefniadau rheoli yn helpu i ysgogi gwelliant parhaus, ond efallai y bydd angen eu diwygio er mwyn cefnogi mwy o ffocws ar gynhyrchiant llawfeddygol

33 Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o drefniadau i gefnogi gwelliant:

- mae cyfarfodydd 'celloedd cynllunio' amlddisgyblaethol ar bob safle yn helpu i gydgysylltu'r rhestrau llawfeddygol, lliniaru heriau gweithredol a gwella defnydd.
- defnyddir dulliau 'Cynllunio Cyflawni Astudio Gweithredu' o wella'n barhaus ar bob safle i ymdrin â phroblemau a'u hatal rhag codi eto.
- mae'r Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cleifion Llawfeddygol yn grŵp Gogledd Cymru gyfan sydd wedi creu ffocws cryf ar y defnydd o theatrau llawdriniaethau, dadansoddi perfformiad a chysondeb arferion gweithredol.

34 Mae'r Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cleifion Llawfeddygol mewn sefyllfa ddelfrydol i hwyluso gwelliannau i gynhyrchiant llawfeddygol, er y dylid ystyried cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod ysgogwyr gwelliannau i gynhyrchiant llwybrau llawfeddygol yn debygol o fod ar lefel arbenigol neu is-arbenigol. Felly, efallai y bydd angen i aelodaeth y grŵp fod yn fwy arbenigol.

#### Mae'r wybodaeth am berfformiad theatrau wedi gwella'n sylweddol o ran argaeledd, dadansoddi a chywirdeb ers 2014.

35 Yn 2014, nododd ein gwaith bryderon ynghylch anghysondeb o ran adroddiadau ar y defnydd o theatrau a chofnodi achosion o ganslo triniaethau, a bod angen gwella amrywiaeth y wybodaeth am berfformiad a dulliau adrodd. Yn ein hadolygiad dilynol yn 2019, nodwyd bod trefniadau rheoli perfformiad da bellach, wedi'u hategu gan wybodaeth am berfformiad a systemau. Mae hyn yn cynnwys pennu targedau ymestyn, canolbwyntio ar y defnydd o theatrau a systemau gwell ar gyfer gwybodaeth am berfformiad. Fodd bynnag, mae cyfle i ganolbwyntio gwybodaeth am berfformiad ar gynhyrchiant llawfeddygol er mwyn llywio'r broses o drawsnewid llwybrau llawfeddygol fel rhan o'r camau gweithredu i ymdrin ag Argymhelliad 1, 2019.

## Gweithlu

**Mae rhai agweddau ar y gweithlu wedi gwella ond mae meysydd i'w gwella a risgiau ar gyfer y dyfodol o hyd.**

36 Canfu ein hadolygiad dilynol rai gwelliannau sy'n ymwneud â rheoli'r gweithlu. Dangosodd canlyniadau'r arolwg staff fod llai o staff wedi nodi pryderon rhwng 2014 a 2019 am lefelau staffio ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn ystod cyfweliadau. Serch hynny, mae rhai heriau penodol, megis hyfforddi a recriwtio ymarferwyr adrannau llawdriniaethau. Dengys data ar y gweithlu[7] hefyd fod heriau a risgiau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- cyfradd trosiant staff gymharol uchel o 9.8%
- cyfradd swyddi gwag o 11.7%; ac
- mae 33% o staff theatrau yn 51 oed neu'n hŷn sy'n risg o ran colli niferoedd staff a cholli gwybodaeth a pherfformiad.

37 Nododd ein harolwg staff fod morâl staff, er ei fod yn gwella, yn bryder o hyd er bod yr adborth yn gyffredinol gadarnhaol o ran gweithio mewn tîm. Er nad oes gennym ddangosydd cadarn arall o ran morâl, mae data'r gweithlu yn nodi bod cyfartaledd treigl absenoldeb oherwydd salwch mewn theatrau llawdriniaethau dros 12 mis yn 7.1%, sy'n uwch na'r cyfartaledd. Er y gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar absenoldeb oherwydd salwch, mae cyfle i ystyried ac ymdrin ag ysgogwyr absenoldeb salwch a morâl.

38 Oherwydd y materion uchod, rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun datblygu gweithlu theatrau. (Argymhelliad 2, 2019).

## Ystad theatrau

**Mae'r ystad theatrau wedi gwella ar rai safleoedd, ond mae angen cael cynllun hirdymor er mwyn sicrhau bod theatrau yn addas at y diben.**

39 Dengys ein canfyddiadau y canlynol:

- mae'r ystad theatrau wedi gwella'n sylweddol yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu. Mae hyn yn cefnogi llif cleifion gwell.
- mae theatrau Ysbyty Gwynedd mewn cyflwr da.
- nid yw safle Abergele yn cefnogi'r amgylchedd gorau i gleifion gael llawdriniaeth ac mae'r lleoliad yn fregus oherwydd y mynediad cyfyngedig i'r safle. Mae'r ddwy theatr fodiwlar yn weithredol ddigonol, ond mae angen ystyried cynlluniau tymor hwy fel rhan o'r strategaeth glinigol gyffredinol.

[7] Mae'r holl ddata ar y gweithlu yn ymwneud â chyfnod adrodd adroddiad 'arfaethedig' mis Mai 2019.

- ers ein hadolygiad yn 2014, mae un o'r ddwy theatr yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno wedi cau. Gyda dim ond un theatr ar waith, mae angen ystyried sut y gwneir y defnydd mwyaf o'r ased hwn.
- ym Maelor Wrecsam:
  – nid yw'r uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn cefnogi llif cleifion da;
  – nid yw'r pellter rhwng theatrau llawdriniaethau dydd a'r prif theatrau yn cynorthwyo rheoli effeithlon;
  – mae lle storio yn her barhaus ar y safle ac mae methiant ystad/cyfarpar yn peri risgiau 'byw' i'r Bwrdd Iechyd; ac
  – mae'r theatrau modiwlar newydd ar gyfer llawdriniaethau dydd yn llawer gwell na'r uned cleifion allanol flaenorol a bydd yn ateb dros dro da nes y caiff cynllun ystad tymor hir ei ddatblygu.

40 Mae ein canfyddiadau uchod yn nodi bod angen cynllun ystad theatrau sy'n ymdrin â'r risgiau presennol ac yn helpu i gynyddu llif cleifion a chynhyrchiant gymaint â phosibl. (Argymhellion 3 a 4, 2019).

### Rheoli stoc

Mae'r trefniadau rheoli stoc yn ddigonol ac yn cael eu diweddaru ar bob un o'r safleoedd ar hyn o bryd.

41 Yn ôl ein hadolygiad, mae trefniadau rheoli stoc, archebu a rheoli rhestrau eiddo ar waith ar bob un o'r safleoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n rhoi cabinetau a systemau rheoli stoc electronig ar waith a ddylai helpu i leihau gwastraff, yn ogystal â chefnogi gwell arfer archebu stoc ac adroddiadau gan reolwyr.

# Argymhellion

42 Caiff y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn 2014 ei ddisgrifio yn Atodiad 2. Nodir yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn Arddangosyn 4 isod. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ac i argymhellion 'agored' o 2014 yn Atodiad 1.

Arddangosyn 4: Argymhellion newydd

Mae'r adolygiad hwn yn gwneud pum argymhelliad newydd i gefnogi gwelliant

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Cynhyrchiant llawfeddygol** | |
| A1 | Datblygu a chychwyn cynllun â therfyn amser penodol er mwyn gwella cynhyrchiant llawfeddygol, gan flaenoriaethu'r sefyllfaoedd arbennig hynny lle mae cleifion yn aros am yr amseroedd hwyaf neu lle ceir y cynnydd mwyaf o ran cynhyrchiant. |
| **Cynllunio'r gweithlu** | |
| A2: | Paratoi a chyhoeddi cynllun datblygu gweithlu theatrau llawdriniaethau. Dylai hyn fod yn seiliedig ar fodelu gallu a galw a demograffeg y gweithlu. |
| **Rheoli ystad** | |
| A3 | Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer yr ystad theatrau er mwyn cefnogi gwell cynhyrchiant llawfeddygol a'i gydlynu â'r strategaeth glinigol a'r cynlluniau arbenigol os bydd y rhain ar gael. |
| A4 | Moderneiddio'r uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth ym Maelor Wrecsam er mwyn sicrhau llif cleifion a lleihau effaith gofal heb ei drefnu ac allgleifion meddygol gymaint â phosibl. |
| **Cysondeb arfer** | |
| A5 | Lle mae gwahaniaethau mewn prosesau rhwng safleoedd y tri ysbyty o ran y llwybr llawfeddygol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y fath wahaniaethau yn dderbyniol a bod modelau arfer da a disgwyliedig yn cael eu mabwysiadu i'r un graddau ar bob un o'r safleoedd |

# Cydnabyddiaethau

43 Hoffem ddiolch i bob un o'r swyddogion am gefnogi'r adolygiad hwn.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad

### Arddangosyn 5: Ymateb y rheolwyr

Dengys y tabl hwn yr argymhellion a wnaed yn ystod yr adolygiad dilynol hwn a'r argymhellion a oedd ar ôl o adolygiad 2014 ynghyd ag ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Argymhellion newydd a wnaed fel rhan o'r adolygiad dilynol hwn yn 2019** | | | |
| A1 Datblygu a chychwyn cynllun â therfyn amser penodol er mwyn gwella cynhyrchiant llawfeddygol, gan flaenoriaethu'r sefyllfaoedd arbennig hynny lle mae cleifion yn aros am yr amseroedd hwyaf neu lle ceir y cynnydd mwyaf o ran cynhyrchiant. | Gorllewin<br>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ymrwymo i raglen o wella ymhellach gan ganolbwyntio ar gynhyrchiant ar lefel arbenigol. Mae adroddiadau lefel arbenigol wedi cael eu datblygu yn adolygu pob un o'r dangosyddion allweddol. Yn ogystal, ymgymerir â gwaith meincnodi drwy wybodaeth adroddiadau am Berfformiad Theatrau Prifysgol Betsi Cadwaladr. Trafodir perfformiad arbenigol hefyd yn y Cyfarfodydd Gweddnewid Llawfeddygol misol a gaiff eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Meddygol y safle, a'r Gell Cynllunio Theatrau a gaiff eu cadeirio gan y Rheolwr Theatrau.<br><br>Canol | Mawrth 2020<br><br>31 Mawrth 2020 | Dylan P Williams DGM<br><br>Paul Andrew |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Mae cynllun ar gyfer 2019/20 ar waith drwy'r grŵp trawsnewid llwybrau Cleifion Llawfeddygol. Mae ffocws gwella penodol ar Orthopedeg, trefnu a rhoi PACU ar waith.<br><br>Dwyrain<br>Mae cynllun ar gyfer 2019/20 wedi cael ei ddatblygu a'i atodi. Caiff hyn ei fonitro bob wythnos yn ein celloedd cynllunio a phob mis gan y grŵp trawsnewid llwybrau cleifion llawfeddygol. | Mawrth 2020 | David Bevan |
| A2: Paratoi a chyhoeddi cynllun datblygu gweithlu theatrau llawdriniaethau. Dylai hyn fod yn seiliedig ar fodelu gallu a galw a demograffeg y gweithlu. | Gorllewin<br>Ar hyn o bryd, mae gennym gynllun ar gyfer gweithlu theatrau'r Gorllewin, sydd yn ychwanegol at Gyllid a Pherfformiad blynyddol y Gorllewin sy'n ystyried cyfradd trosiant a demograffeg pob aelod o staff theatrau. Mae hyn wedi'i seilio ar ganllawiau AFPP gan ystyried gallu a chynllunio. Mae'r cynllun wedi cael ei dderbyn gan Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Gorllewin. Caiff y cynllun ei adolygu ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r rhagamcanion modelu galw diwygiedig.<br><br>Canol<br>Cynllun recriwtio a chadw staff penodol i'r safle wedi'i ddatblygu. (Gweler yr atodedig.)<br>Grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gyda rheolwyr theatrau, rheolwr addysg alwedigaethol, dirprwy gyfarwyddwr Nyrsio – gwella cyfleoedd recriwtio a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff presennol.<br><br>Dwyrain<br>Grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gyda Rheolwyr Theatrau, Rheolwr Addysg Alwedigaethol a'r Dirprwy | Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2020 | Dafydd Pleming<br>Rheolwr Theatrau<br><br>Angela Jones |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gyfarwyddwr Nyrsio er mwyn ystyried yr opsiynau amgen ar gyfer hyfforddiant a chynyddu nifer y dysgwyr mewn theatrau. | 31 Mawrth 2020 | Anne Marie Rowlands / Ade Evans / Rheolwyr Theatrau |
| A3 Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer yr ystad theatrau er mwyn cefnogi gwell cynhyrchiant llawfeddygol a'i gydlynu â'r strategaeth glinigol a'r cynlluniau arbenigol os bydd y rhain ar gael. | Bydd y strategaeth gwasanaethau clinigol yn ystyried y gwaith sydd ei angen i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar draws yr ystad theatrau. Mae cynlluniau lleol wrthi'n cael eu datblygu a fydd yn llywio'r dull gweithredu mwy strategol:<br><br>Gorllewin<br>Mae datblygu Theatrau Llandudno yn y dyfodol yn rhan o Grŵp Ailddatblygu Llandudno. Yn ogystal, gweithgor Rhanddeiliaid Llandudno i'w sefydlu er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r safle. Mae'r broses o ddatblygu ac ehangu Gallu Theatrau Ysbyty Gwynedd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Orthopedig.<br><br>Canol<br>Cynllun Orthopedig 3 blynedd i'w ddatblygu gan gynnwys theatr a ward.<br><br>Dwyrain<br>Mae adolygiadau o wasanaethau arbenigol yn y Bwrdd Iechyd yn mynd yn eu blaen. Bydd ailddatblygu Safle Maelor Wrecsam yn ystyried canlyniadau'r adolygiadau hynny. Bydd theatrau yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu safle Ysbyty Maelor Wrecsam. | Parhaus<br><br>Mawrth 2020<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus | Gill Harris/David Fernley/Mark Wilkinson<br><br>Dylan P Williams<br>DGM<br>Dafydd Pleming<br>Rheolwr Theatrau<br><br>Paul Andrew<br>Angela Jones<br><br>Swyddogion Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Arweinydd Prosiect, Graham Alexander |

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Moderneiddio'r uned derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth ym Maelor Wrecsam er mwyn sicrhau llif cleifion a lleihau effaith gofal heb ei drefnu ac allgleifion meddygol gymaint â phosibl. | Cynlluniau wedi'u datblygu, a'u cytuno, ac achos busnes wedi'i gyflwyno i'r adran gynllunio ar gyfer buddsoddiad yn 2019/20. | Mawrth 2020 | Maureen Fallon |
| A5 | Lle mae gwahaniaethau mewn prosesau rhwng safleoedd y tri ysbyty o ran y llwybr llawfeddygol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y fath wahaniaethau yn dderbyniol a bod modelau arfer da a disgwyliedig yn cael eu mabwysiadu i'r un graddau ar bob un o'r safleoedd. | Ymdrinnir â dull gweithredu ar gyfer y system gyfan drwy'r Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cleifion Llawfeddygol. Mae rhannu arfer gorau wedi dod yn gyffredin, a bydd yn parhau. | Parhaus | Maureen Fallon |
| **Argymhellion sydd ar ôl o 2014** | | | | |
| A2a | Monitro profiad y claf drwy gyflwyno arolygon ar brofiad y claf a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ond gan roi adborth i staff ar ymatebion cadarnhaol. | Gorllewin<br>Ymdriniwyd â hyn bellach yn Ysbyty Gwynedd drwy dîm profiad y claf. Mae hyn yn cynnwys yr adborth ar ward Tudno (ward llawdriniaeth ddydd). Dylai'r canlyniadau cyntaf fod ar gael ym mis Medi 2019 a rhennir y canlyniadau â phob rhan o Brifysgol Betsi Cadwaladr.<br><br>Canol<br>Tîm profiad y claf yn gweithio'n agos gyda'r tîm rheoli canolog i nodi profiadau ar gamau amrywiol y llwybr Llawfeddygol. Llawdriniaeth ar y diwrnod derbyn, Clinigau Asesu Cyn Llawdriniaeth, wardiau. Caiff hyn ei fonitro hefyd drwy system digwyddiadau a chwynion/pryderon Datix o fewn y gyfarwyddiaeth.<br><br>Dwyrain | Medi 2019<br><br>Rhagfyr 2019<br><br>31 Rhagfyr 2019 | Dylan P Williams<br>DGM<br>Dafydd Pleming<br>Rheolwr Theatrau<br>Lesley Walsh<br>Pennaeth Nyrsio<br><br>Angela Jones<br>Paul Andrew<br><br>David Bevan |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gwaith wedi dechrau i ailadrodd yr arolwg eleni – a defnyddir yr un arolwg ym mhob un o'r tri safle ar gyfer dull gweithredu cyson. | | |
| A3a Gwella profiad y claf drwy safoni'r prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf. | Mae amrywiadau o ran arfer o hyd rhwng y tri safle. Cyflwynwyd model cyn llawdriniaeth Wrecsam i'r Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Gofal Eilaidd yn y gorffennol gydag argymhelliad y dylid defnyddio'r model hwn ym mhob un o'r tair adran. Hefyd, cwblhawyd ymarfer cwmpasu ym mis Ebrill 2018 gan y tîm Gwella Gwasanaethau er mwyn cymharu arferion ac amlygu gwahaniaethau. Byddwn yn parhau i weithio ym mhob un o'r 3 safle ac ymhelaethu ar arferion gorau yn ogystal â'r ddogfennaeth cyn llawdriniaeth sydd wedi cael ei safoni ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ers 2016. | Mawrth 2020 | Steve Griffiths |
| A4b Canolbwyntio ar wella ôl-friffiadau gan mai hwn yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf a nodwyd drwy wella'r gwaith o fonitro'r broses gyfan o roi rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ar waith | Gorllewin<br>Cynhelir ôl-friffiadau yn ôl yr angen. Mae pob un o aelodau'r tîm yn ymwybodol y gallant ofyn am ôl-friffiad os byddant yn teimlo bod angen hynny. Mae unrhyw ddigwyddiad anffodus yn cychwyn ôl-friffiad yn awtomatig er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chasglu ac y caiff llesiant y staff ei gadarnhau.<br><br>Canol<br>Cynhelir ôl-friffiad pan geir digwyddiad anffodus, neu ar gais gan unrhyw aelod o'r timau llawfeddygol. Mae hyn yn unol â safbwynt grŵp Rheolwyr Theatrau Cymru Gyfan. Mae'r Rheolwr Theatrau yn bwriadu ymweld â byrddau iechyd eraill y tu allan i Gymru.<br><br>Dwyrain<br>Safbwynt grŵp Cymru Gyfan yw y cynhelir ôl-friffiad pan geir digwyddiad anffodus yn ystod y rhestr. Gall unrhyw | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>30 Mehefin 2019 | Dafydd Pleming<br>Rheolwr Theatrau<br><br>Angela Jones<br><br>Grŵp Rheolwr Theatrau Cymru Gyfan |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | aelod o staff ofyn am ôl-friffiad yn dilyn digwyddiad sydd wedi effeithio arnynt. | | |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

# Atodiad 2

## Cynnydd yr erbyn argymhellion 2014

### Arddangosyn 6: Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos yr argymhellion a wnaed yn adolygiad 2014 ac yn disgrifio'r cynnydd.

| Argymhelliad 2014 | Cynnydd | Statws |
| --- | --- | --- |
| **Gwybodaeth am Berfformiad** | | |
| A1a Safoni'r holl ddiffiniadau o ddefnydd a data ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cysondeb mewn adroddiadau, a sicrhau bod unedau theatrau yn dilysu data ar berfformiad yn rheolaidd. | Mae data ar ddefnydd bellach yn gyson ac yn cyd-fynd â safon data Cymru gyfan. Defnyddir adroddiadau gwybodaeth er mwyn ysgogi'r broses o ddilysu data. Rhai bylchau o hyd – megis nodi amser ymdawelu mewn rhai mannau ond mae'r gwaith yn mynd ati i wthio i ymdrin â hyn. | **Cwblhawyd** |
| A1b Sicrhau y caiff data ar achosion o ganslo eu casglu'n gywir ar draws y Bwrdd Iechyd a bod pob safle theatr yn cofnodi rhesymau am ganslo yn gyson. | Mae dull cyson o gasglu a chofnodi data ar achosion o ganslo yn erbyn y meini prawf penodol bellach. | **Cwblhawyd** |
| A1c Casglu, dadansoddi a defnyddio amrywiaeth fwy cytbwys o ddata ar berfformid, gan gynnwys canlyniadau, cynhyrchiant a mesurau chymhlethdod. | Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn defnyddio amrywiaeth fwy cytbwys o ddata ar gynhyrchiant perfformiad. Mae dangosfwrdd perfformiad newydd yn galluogi rheolwyr a staff i weld y perfformiad ac ystyried y rhesymau dros y perfformiad hwnnw yn fanylach. | **Cwblhawyd** |
| A1d Gwella adroddiadau i staff ar berfformiad drwy gyflwyno dangosfwrdd perfformiad hawdd i'w ddeall y gellir ei osod mewn unedau theatrau mewn man amlwg i wella ymwybyddiaeth o berfformiad ymhlith pob grŵp o staff | Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn defnyddio ei ddangosfwrdd electronig er mwyn rheoli perfformiad, a chaiff y wybodaeth hon ei rhannu mewn cyfarfodydd a'i gosod ar yr hysbysfyrddau. | **Cwblhawyd** |

| Argymhelliad 2014 | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| **Profiad y claf** | | |
| A2a Monitro profiad y claf drwy gyflwyno arolygon ar brofiad y claf a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ond gan roi adborth i staff ar ymatebion cadarnhaol. | Nid oes unrhyw ddull systematig o ymgymryd ag arolygon profiad y claf ar gyfer theatrau, er bod enghreifftiau lle mae Clinigau Asesu Cyn Llawdriniaeth wedi defnyddio arolygon adborth cleifion a rhoi adborth o gynghori â chleifion neu gysylltu â nhw yn ôl i staff mewn cyfarfodydd. | **Cam gweithredu heb ei gwblhau o hyd** |
| A2b Sicrhau y dysgir gwersi o ddigwyddiadau ac y cânt eu rhannu'n effeithiol ar draws y Bwrdd Iechyd ac unedau theatrau. | Cyflwynir adroddiadau ar ddigwyddiadau drwy ddefnyddio system DATIX. Dilynir y rhain a chymerir camau dilynol. Nododd pobl y cyfwelwyd â nhw ar bob un o'r safleoedd eu bod yn dysgu o bob digwyddiad/pryder sylweddol gyda chamau unioni yn cael eu rhoi ar waith. Mae fforymau lle mae theatrau yn rhannu gwersi a ddysgir â phob un o'r safleoedd (grŵp gwella llwybrau llawfeddygol) a safleoedd ledled Cymru. | **Cwblhawyd** |
| **Gwasanaethau cyn llawdriniaeth** | | |
| A3a Gwella profiad y claf drwy safoni'r prosesau cyn llawdriniaeth ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf. | Yn 2018, ymgymerodd y Bwrdd Iechyd â dadansoddiad cynhwysfawr o fodelau Clinigau Asesu Cyn Llawdriniaeth ar bob un o'r safleoedd. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd sgiliau, swyddogaethau, prosesau, cyfrifoldebau:<br>• Mae amrywiaeth rhwng y safleoedd o hyd o ran y modelau a'r cymysgedd sgiliau.<br>• Mae angen gwneud penderfyniad nawr i gysoni'r dulliau gweithredu yn seiliedig ar fodel cytûn.<br>Dylai unrhyw fodel a gaiff ei fabwysiadu alluogi claf i gael llawdriniaeth ar unrhyw safle, ni waeth a fydd wedi cael asesiad cyn llawdriniaeth ai peidio. | **Cam gweithredu heb ei gwblhau o hyd** |
| A3b Cyflwyno gwaith papur safonol ar gyfer asesiad cyn llawdriniaeth er mwyn sicrhau y gall cleifion gael gafael ar y gwasanaethau hyn yn agosach i'w cartref yn hytrach na'r ysbyty lle gall y driniaeth gael ei rhoi. | Mae gwaith papur safonedig ar gyfer asesiadau cyn llawdriniaeth bellach ar waith a chaiff ei ddefnyddio ar bob un o'r safleoedd. | **Cwblhawyd** |

| Argymhelliad 2014 | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| **Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a sesiynau briffio** | | |
| A4a Cyflwyno methodoleg rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Cyffredinol Llandudno ar bob safle, gan fod hyn yn arfer da. | Mae rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i gwreiddio ar bob un o'r safleoedd. 94% yn y Gorllewin a'r Canol a 98% yn y Dwyrain. Mae'r safleoedd yn parhau i ddefnyddio dulliau gweithredu gwahanol ond mae'r dulliau presennol wedi'u mabwysiadu'n dda, gyda chyfraddau cydymffurfio uchel. | **Caewyd** |
| A4b Canolbwyntio ar wella ôl-friffiadau gan mai hwn yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf a nodwyd drwy wella'r gwaith o fonitro'r broses gyfan o roi rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ar waith. | Ni chynhelir ôl-friffiadau ar ôl sesiynau yn rheolaidd. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r trefniadau hyn, yn enwedig os ceir problem neu ddigwyddiadau yn ystod rhestr, neu pan fydd staff newydd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gallu rhannu barn ar effeithiolrwydd gweithredol. | **Cam gweithredu heb ei gwblhau o hyd** |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Swyddfa Archwilio Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru